ATODLEN 1

Rheoliad 3

# RHAN 1

## Dirymiadau

| *Y Rheoliadau a Ddirymwyd* | *Cyfeirnod* | *Graddau'r Dirymu* |
|---|---|---|
| Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 | O.S. 2004/1744 (Cy.183) | Y Rheoliadau cyfan |

# RHAN 2

Arbedion a Darpariaethau Trosiannol Cyffredinol

**Penderfyniadau ynghylch cyfnod prawf**

**1.** Yn achos person a oedd, ar 1 Medi 1992, wedi cychwyn ond heb gwblhau cyfnod prawf o dan reoliad 14 o Reoliadau 1989, ac Atodlen 6 iddynt, mae rheoliad 14 ac Atodlen 6 i barhau i gael effaith hyd oni chydymffurfiwyd â'u holl ddarpariaethau.

**2.** O ran athrawon—

(a) y dyfarnwyd eu bod yn anaddas i gael eu cyflogi ymhellach fel athrawon cymwysedig yn unol â pharagraff 2(c) o Atodlen 2 i Reoliadau 1959; neu

(b) a gafodd rybudd ysgrifenedig o dan baragraff 5(2) o Atodlen 6 i Reoliadau 1982,

nid ydynt i gyflawni gwaith a bennwyd yn rheoliad 7 mewn ysgol heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

ATODLEN 2

Rheoliad 5

Y GOFYNION SYDD I'W BODLONI GAN BERSONAU NAD YDYNT YN ATHRAWON CYMWYSEDIG ER MWYN CYFLAWNI'R GWAITH A BENNIR YN RHEOLIAD 7

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8 o Reoliadau 2004; ac

ystyr "sefydliad achredEdig" ("*accredited institution*") yw sefydliad wedi ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan reoliad 7 o Reoliadau 2004 neu gan yr Asiantaeth Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Ysgolion o dan reoliad 11 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003(**1**).

(**1**) O.S. 2003/1662 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005 (p.18) a chan O.S. 2007/2782 ac O.S. 2009/3156.

**Athrawon presennol dosbarthiadau meithrin ac mewn ysgolion meithrin nad ydynt yn athrawon cymwysedig**

**2.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos—

(a) athrawon cynorthwyol mewn ysgol feithrin; neu

(b) athrawon dosbarth meithrin,

y caniatawyd eu cyflogi fel athrawon gan baragraff 4 o Atodlen 4 i Reoliadau 1982 ac a oedd yn cael eu cyflogi felly yn union cyn 1 Medi 1989.

(2) Caiff personau o'r fath gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol yn yr un swyddogaeth ag yr oeddynt yn cael eu cyflogi ynddi cyn 1 Medi 1989.

**Personau a chanddynt gymwysterau arbennig neu brofiad arbennig**

**3.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau nad ydynt yn athrawon cymwysedig a benodwyd, neu y bwriedir eu penodi, i gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn cysylltiad ag unrhyw grefft neu sgil neu mewn unrhyw bwnc neu grŵp o bynciau, y mae angen ynddynt gymwysterau arbennig neu brofiad arbennig neu'r ddau er mwyn gwneud hynny.

(2) Caiff personau a grybwyllwyd yn is-baragraff (1) gyflawni gwaith a bennwyd yn rheoliad 7 mewn ysgol—

(a) os yw'r awdurdod lleol (yn achos ysgol nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig neu yn achos uned cyfeirio disgyblion), y corff llywodraethu sy'n gweithredu gyda chydsyniad yr awdurdod lleol (yn achos ysgol a chanddi gyllideb ddirprwyedig), neu'r corff llywodraethu (yn achos ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod lleol), yn ôl y digwydd, ar adeg penodi'r personau, wedi ei fodloni ynghylch eu cymwysterau neu eu profiad neu eu cymwysterau a'u profiad; a

(b) os nad oes, ar adeg penodi'r personau, unrhyw athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig addas, neu athro neu athrawes sydd ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, ar gael i'w benodi neu i'w phenodi felly; neu

(c) os nad oes, ar adeg penodi'r personau, mewn cysylltiad â gwaith a ddisgrifir ym mharagraff 6(2) o'r Atodlen hon, unrhyw berson addas sy'n dal cymwysterau sy'n ofynnol o dan reoliad 3 o Reoliadau 2002 ar gael i'w benodi felly.

(3) Dim ond am y cyfnod hwnnw, pan nad oes unrhyw athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig addas neu athro neu athrawes sydd ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ar gael i'w penodi neu i'w phenodi neu, mewn cysylltiad â gwaith a ddisgrifir ym mharagraff 6(2) o'r Atodlen hon, dim ond am y cyfnodau hynny pan nad oes unrhyw berson addas sy'n dal cymwysterau sy'n ofynnol o dan reoliad 3 o Reoliadau 2002 ar gael i'w benodi felly, y caiff personau a benodir a chanddynt gymwysterau arbennig neu brofiad arbennig a ddisgrifir yn is-baragraff (1), ac sy'n bersonau sy'n cyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 fel a ganiateir gan is-baragraff (2), wneud hynny, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4).

(4) Nid yw is-baragraff (3) yn gymwys yn achos personau o'r fath a benodwyd cyn 8 Ebrill 1982—

(a) os am gyfnod penodedig y'u penodwyd, os ac ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw wedi dod i ben; neu

(b) os am gyfnod amhenodedig y'u penodwyd, oni fynegwyd yn wahanol i hynny mai penodiad dros dro yn unig ydoedd.

**Athrawon a Hyfforddwyd Dramor**

**4.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen o hyfforddiant proffesiynol i athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n rhaglen sy'n cael ei chydnabod yn rhaglen o'r fath gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno.

(2) Caiff personau a grybwyllir yn is-baragraff (1) gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) am gyfnod o hyd at ddwy flynedd yn dechrau ar y diwrnod y maent yn cyflawni gyntaf waith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol.

### Hyfforddeion ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau sy'n ymgymryd â chwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol mewn sefydliad achrededig yng Nghymru neu yn Lloegr.

(2) Caiff personau a grybwyllir yn is-baragraff (1) gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) o dan oruchwyliaeth athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig yn ystod unrhyw gyfnod pan fyddant yn ymgymryd â phrofiad dysgu ymarferol at ddibenion y cwrs hwnnw.

### Athrawon addysg bellach cymwysedig sy'n addysgu cyrsiau galwedigaethol o fewn y cwricwlwm lleol

**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau a chanddynt gymwysterau sy'n ofynnol o dan reoliad 3 o Reoliadau 2002.

(2) Caiff personau a grybwyllir yn is-baragraff (1) gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol i'r graddau mai cyflwyno cyrsiau astudio galwedigaethol sy'n ffurfio rhan neu'r cyfan o gwricwlwm lleol a ffurfiwyd gan awdurdod lleol yn unol ag adran 116A o Ddeddf Addysg 2002(**2**) neu gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 33A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**3**) yw'r gwaith.

### Cynllun hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth

**7.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau sy'n ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion cynllun hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth.

(2) Caiff personau o'r fath gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol hyd oni fyddant yn cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus neu'n peidio ag ymgymryd ag ef.

### Personau eraill y caniateir iddynt gyflawni gwaith penodedig

**8.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau nad ydynt yn athrawon cymwysedig ac nad ydynt wedi eu crybwyll ym mharagraffau 2 i 7 o'r Atodlen hon.

(2) Dim ond os bodlonir yr amodau canlynol y caiff personau o'r fath gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol—

(a) bod y personau'n cyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 er mwyn cynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon cymwysedig neu athrawon enwebedig yn yr ysgol;

(b) bod y personau'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athrawon cymwysedig neu athrawon enwebedig o'r fath yn unol â threfniadau a wnaed gan bennaeth yr ysgol; ac

(c) bod y pennaeth wedi ei fodloni bod ganddynt y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad y mae eu hangen i gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7.

(3) Os ydynt o'r farn bod yr enwebiad yn briodol yn yr amgylchiadau, caiff penaethiaid enwebu personau a grybwyllir ym mharagraffau 3, 4, 5, 6 neu 7 yn yr Atodlen hon yn athrawon enwebedig at ddiben is-baragraff (2).

---

(**2**) Fel a fewnosodwyd gan adran 4 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (2009 mccc Rhif 1) ac a gychwynnwyd ar 7 Rhagfyr 2009 (O.S. 2009/3174, erthygl 2(1)(b)) at ddibenion neilltuol ac ar 1 Ionawr 2010 (O.S. 2009/3174, erthygl 2(2)(c)) at weddill y dibenion.

(**3**) Fel a fewnosodwyd gan adran 22 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ond nas cychwynnwyd ar ddyddiad y Rheoliadau hyn.

(4) Wrth benderfynu a oes gan y personau a grybwyllir yn is-baragraff (1) y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad sy'n ofynnol i gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol, caiff penaethiaid roi sylw–

(a) i'r safonau hynny ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch, neu ganllawiau ynghylch staff cymorth ysgol, y gall Gweinidogion Cymru eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd; a

(b) i'r canllawiau hynny o ran materion contract sy'n ymwneud â staff cymorth ysgol y gall unrhyw awdurdod lleol neu gyflogwr arall eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.